Cyngor Bwrdeistref Sirol
Blaenau Gwent
County Borough Council

Teitl: **Uwch Swyddog Cymorth Busnes**

Lleoliad: **Seiliedig ar Wasanaeth (ar draws 5 hyb gweithio ystwyth)**

Cyfarwyddiaeth: **Gwasanaethau Corfforaethol**

Cyflog: **Gradd 7 (£32,909 - £36,298 pro rata/y flwyddyn)**

Oriau: **37**

Contract: **Parhaol**

Crynodeb Swydd

Daeth cyfle cyffrous ar gael ar gyfer unigolyn hyderus a phrofiadol i arwain ar ffrwd gwaith newydd o fewn Cymorth Busnes a fyddai'n cynnwys rheoli tîm o 18. Os ydych yn ffynnu ar amrywiaeth gallai hon fod y swydd i chi. Mae'r swydd yn cynnig cyfle i ddatblygu arferion gwaith newydd o amgylch rheoli cyfleusterau o fewn y 5 hyb gweithio ystwyth corfforaethol, gan hefyd weithio ar lefel weithredol a strategol.

Hysbyseb Lawn

Yn dilyn adolygiad diweddar cytunwyd y bydd Cymorth Busnes yn rheoli'r cyfleusterau ar draws yr hybiau gweithio hyblyg (Llys Einion, Swyddfeydd Cyffredinol, ICC Blaenau, ViTCC, Canolfan Ynni). Mae hwn yn ffrwd gwaith newydd a bydd yn cynnwys datblygu prosesau a gweithdrefnau i hwyluso cysondeb yn y ffordd y caiff y gaiff yr hybiau gweitho hyblyg eu rheoli.

Bydd y swydd yn datblygu dros gyfnod ond disgwylir i'r ymgeisydd llwyddiannus ymwneud yn helaeth mewn meysydd tebyg i gydlynu rheoli cyfleusterau, iechyd a diogelwch, cynhyrchu incwm drwy ddefnyddio cyfleusterau, rheoli'r derbynfeydd corfforaethol, ynghyd â datblygu dulliau gweithio hybrid tebyg i archebion desg/ystafell, post hybrid a rheoli print cyfunol.

Bydd gan yr Uwch Swyddog Cymorth Busnes rôl hollbwysig wrth reoli tîm o bobl yn cefnogi swyddogaethau Landlord Corfforaethol a Derbynfa y Cyngor. Bydd â chyfrifoldeb goruchwylio uniongyrchol dros tua 6 o staff, ynghyd â thîm ehangach o 18 sy'n cefnogi amrywiaeth o swyddogaethau ar gyfer Gwasanaethau Technegol, Arlwyo, Glanhau a Derbynfeydd Corfforaethol.

Edrychwn am unigolyn deinamig gyda sgiliau cyfathrebu rhagorol a all reoli nifer o ddisgyblaethau, gyda phwyslais ar y gallu i ddatblygu a chynnal perthynas waith dda gyda rhanddeiliaid mewnol ac allanol. Bydd rheoli tenantiaid presennol a chynhyrchu incwm o logi cyfleusterau yn rhan allweddol o'r swydd. Bydd y swydd hefyd angen safonau uchel o

wasanaethau cwsmeriaid, wrth i ni ddechrau cyfuno ein derbynfedd yn wasanaeth cydlynol fydd yn gwasanaethu cwsmeriaid, aelodau etholedig a staff.

Mae'r ystod gwasanaethau yn gweithredu o'r tîm yn amrywiol a chafodd llawer o newidiadau cadarnhaol eu gwneud mewn blynyddoedd diweddar gyda chyflwyno systemau newydd a ffyrdd gwahanol o weithio. Bydd y swyddog llwyddiannus yn parhau i sefydlu a gwella systemau presennol, gan gysylltu gyda chydweithwyr yn Gwasanaethau Corfforaethol fel rhan o adolygiadau gwasanaeth presennol a rhaglenni digidol.

Bydd profiad o reoli staff a medru addasu eich llwyth gwaith eich hun a blaenoriaethau eraill yn hanfodol. Gall gofynion gweithredol y gwasanaeth newid yn gyflym. Bydd angen i'r Uwch Swyddog Cymorth Busnes fedru newid i addasu yn gyflym ac yn broffesiynol i'r newidiadau mewn gofynion.

Mae'r swydd yn seiliedig ar wasanaeth i hwyluso'r newidiadau priodol a chreu'r cysondeb sydd ei angen ar draws pob hyb gwaith.

Dyddiad Cau: 8 Mehefin 2023

Dyddiad Cyfweliadau: 26 Mehefin 2023